



*El castell- symbol o undod a balcher Catalan, tudalen 10*

## PWYLLGOR A SWYDDOGION

**Cadeirydd:** Robert Dutt      **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas [e.thomas119@btinternet.com](mailto:e.thomas119@btinternet.com)

**Golygydd:** Ben Jones [benamary2000@yahoo.co.uk](mailto:benamary2000@yahoo.co.uk)    02920 862428    07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough [faircloughme@aol.com](mailto:faircloughme@aol.com)    02920 885151

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Dosbarthu a Golygydd Llundain:** Mary Jones

**Ieuenctid:** Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

**Hysbysebu:** Huw Rowlands, Menter Iaith    **Gwefan:** [mentercaerffili.cymru/](http://mentercaerffili.cymru/)



**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

**e-bost:** [Golygydd@papurecwmni.cymru](mailto:Golygydd@papurecwmni.cymru)    **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**

**Argraffu:** Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

### DEDDF NEWYDD PREIFATRWDYDD—DARLLENWCH !!!

Os ydych yn darllen “Cwmni”, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data wedi newid ers mis Mai, ac felly mae gennym yn awr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthyh sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid, neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech dderbyn copi o'r Rhybudd Preifatrwydd, gallwch wneud hynny drwy ymweld â Gwefan y papur: [mentercaerffili.cymru/](http://mentercaerffili.cymru/)



Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Golygydd. Gweler manylion cysylltu uchod.

## Oedfaon Capeli Cymraeg Mis Medi

### Bedyddwyr Tonyfelin

2ail    10.30 a 6.00 Parch. Milton Jenkins  
9fed    10.30 Oedfa Deulu 6.00 I'w drefnu  
16eg    10.30 a 6.00 Ym Methel  
23ain    10.30 a 6.00 Marc Jon Williams  
30ain    10.30 a 6.00 I'w drefnu

### Annibynwyr, Bethel

2ail    10.30: Cyril Smith  
9fed    10.30 Cofio Dafydd Henri  
16eg    10.30 Parch. Milton Jenkins 6:00 Cyril Smith  
23ain    10.30 a 6.00 : Yn Nhonyfelin  
30ain    10.30 Dr John Gwynfor Jones

### Penuel, Rhymni

Mr Geoff Leyshon  
Dr Gwynfor Jones  
Rhydd  
Parch. Glyn T Jones  
Parch. Aled Thomas

### Capel y Groeswen

3:00 y.p  
9fed o Fedi  
Parch Denzil John  
“ANNIVERSARY SERVICE”

# Cymanfa i'w Chofio !!



**Ann Hopcyn**

Ar ganol bwrlwm a  
brwdfrydedd  
Cymanfa Ganu  
Eisteddfod  
Genedlaethol  
Caerdydd eleni  
cyhoeddwyd mai'r  
Parchedig Denzil  
John oedd wedi  
ennill y  
gystadleuaeth  
cyfansoddi emyn.  
Y gofyn oedd,  
llunio penillion ar  
gyfer eu canu i'r

emyn dôn Blaenwern. Mae'r dôn, wrth gwrs, yn boblogaidd ar draws y byd a chyfansoddwyd hi gan William Penfro Rowlands a anwyd yn Sir Benfro – yr un sir lle cafodd Denzil yntau ei eni a'i fagu.

Ond nid yna oedd diwedd y sôn am Gaerffili yn y gymanfa flynyddol. O, nage! I'n cyfareddu yn hwyrach yn ystod y digwyddiad, cyhoeddwyd mai un o ferched y fro hon oedd wedi ennill y gystadleuaeth cyfansoddi emyn dôn. Camp Ann Hopcyn oedd llunio tôn ar gyfer geiriau a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y gystadleuaeth. A phwy ysgrifennodd y geiriau hynny? Wel, Denzil, wrth gwrs!!

Magwyd Ann Hopcyn ar lethrau'r mynydd uwchben Cwm yr Aber yn fferm Cefn Llwyd, merch hynaf Gwilym a Moyra Davies a chwaer Nia (Parsons) Heol Sant Martin. Eu mam, wrth gwrs, oedd prifathrawes gyntaf Ysgol Gymraeg Caerffili a ddaeth wedyn yn Ysgol Ifor Bach. Wedi mynychu'r ysgol honno aeth Ann ymlaen i Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydfelen lle enillodd gymwysterau i fynd ymlaen i'r Brifysgol ym Mangor i ddilyn gradd mewn Cerddoriaeth ac yna symud i Goleg Goldsmiths yn Llundain i hyfforddi i fod yn athrawes. Ac mae hi, bellach, yn gweithio yn ym Mhrifysgol Bangor yn arwain darpar athrawon wrth iddynt ganlyn eu cyrsiau hyfforddi.

A dyma'r cysylltiad â Chaerffili yn codi eto! Priododd Ann â'i gŵr, y cerddor Bil Evans, yn Nhonyfelin. Y gweinidog yno a'u priododd. A'r gweinidog ar y pryd? Denzil John, wrth gwrs!

Mae Ann a Bil a'u plant Meilyr, Trystan a Rhydian wedi ymgartrefu yn nhref y Cofis ers rhai blynyddoedd ac yn weithgar iawn yn eu cymuned. Ann, erbyn hyn, yw ysgrifennydd Clwb Rygbi Caernarfon. Anarferol yw gweld menyw yn ysgrifennydd ar glwb rygbi. Mwy arferol yw i rai a fagwyd yn Ne Cymru fynd i fyny i'r Gogledd i genhadu achos ein camp genedlaethol - gêm y bêl hirgron! I chwaraewyr Caernarfon, yn oedolion a phlant, mae'r Gymraeg yn iaith gyfathrebu naturiol, ar y cae ac oddi arno. Yn ogystal â'r gwaith caib a rhaw o redeg y clwb mae Ann yn rhan o weithgor y Gymraeg yn y gogledd, sy'n rhannu arfer dda rhwng y clybiau gyda'r bwriad yn y pen draw o ledaenu'r neges ar draws clybiau Cymru.

Mentrodd Ann ar y gystadleuaeth hon nifer o weithiau yn y gorffennol cyn ennill y tro hwn diolch i feirniadaeth Euros Rhys Evans. Edrychwn ymlaen nawr at glywed canu tôn Ann ac emynau Denzil yng ngwasanaethau a chymanfaoedd y dyfodol.

Llongyfarchiadau calonogol i'r ddau ohonynt.



***Y cyfansoddwr a'r emynydd y tu allan i Ganolfan y Mileniwm***

## Cofio Meibion Colonel Lindsey

Pe byddech yn ymweld ag Amgueddfa Criced Cymru yng Ngerddi Soffia, yng nghartref Tîm Criced Morgannwg, fe welech lun a dynnwyd yn 1924, o dîm o gricedwyr ifanc o Ystrad Mynach, a ffurfiwyd gan y Cynrol Morgan Lindsey, Ystrad Fawr.

Roedd gan y Cynrol ddiddordeb mawr mewn criced ac fe fu'n gefnogol iawn i ddatblygiad Tîm Morgannwg.

Mi fentraf awgrymu mai David Edzell Thomas Lindsey, pedair ar ddeg oed, pedwerydd mab y Cynrol a gor-ŵyr i Arglwydd Tredegar, sy'n eistedd yng nghanol y rhes flaen. Mae'r ffordd mae wedi gwisgo, ychydig yn fwy safonol na'i gyfeillion, a'i safle yn y llun, yn adlewyrchu ei statws fel etifedd Ystrad Fawr.

Peth rhyfedd fyddai i'r crwt ifanc yma ddod yn etifedd yn ei dro, ac yntau â thri brawd hŷn. Felly beth ddigwyddodd i'r brodyr mawr, George, Archie a Claud? Mae'r ateb i'w gael yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Ystrad Mynach ac ar safle eu cartref, Ystrad Fawr.

Ym mlaen yr eglwys, mae 'na dair cofeb, un yr un i'r brodyr, y tri wedi marw yn y Rhyfel Mawr rhwng Mehefin 1917 a Mawrth 1918; yr ail a'r trydydd o fewn yr un wythnos. Byddai colli un mab wedi bod yn ergyd drom. Roedd colli tri yn hollol drychinebus.

Roedd y Cynrol o dras y teulu Morgan, Tŷ Tredegar; teulu oedd wedi elwa'n sylweddol ers canrifoedd o anturiaethau milwrol enbyd, a thrachwant ymerawdol Prydain.



Roedd e wedi ennill bri drwy ymladd yn erbyn ffermwyr y Böer yn Ne Affrica a brodorion y Sudan. Ond gêm gwbl wahanol oedd y Rhyfel Mawr: nid milwr yn erbyn ffarmwr na gatling yn erbyn assegai ond rhyfel erchyll rhwng ymherodraethau soffistigedig.

Yn yr eglwys, mae'r cofebion wedi eu lleoli mewn safle oedd yn gweddu i statws y teulu. Ar gofeb y pentref, sydd erbyn hyn wedi ei leoli ar safle Ystrad Fawr, mae'n rhaid i'r brodyr gymryd eu tro yn ôl trefn y wyddor: tri allan o saithdeg a phump o fechgyn yr ardal oedd heb ddychwelyd.

Yn y pen draw, does dim bri mewn bedd.

*Gellir darllen yr hanes yn llawnach yn, "Front Foot to Front Line: Welsh Cricket and the Great War" gan Dr. Andrew Hignall, Cydlynnydd Treftadaeth ac Addysg Clwb Criced Morgannwg a Churadur Amgueddfa Criced Cymru. Cyhoeddir llun y tîm gyda chaniatâd Archif Criced Cymru.*

*Dafydd Idris Edwards*

## Mrs Lorna Jones



Dymuniad Mrs Lorna Jones oedd y byddai Tonyfelin yn llawn ar ddiwrnod ei hangladd. Ac felly y profodd, oherwydd gwelwyd y capel dan ei sang fore Mawrth, 11eg o Orffennaf wrth i deulu, cydnabod a chyfeillion niferus Lorna dalu'r deyrnged olaf iddi. Ychydig dros awr yn ddiweddarach roedd Capel Wenallt yr amlogfa yr un mor llawn.

Roedd Lorna, yn enedigol o Fedlinog, yn berson adnabyddus a phoblogaidd yng Nghaerffili. Roedd pawb yn ei hadnabod, yn bennaf oherwydd yr ymdrech a wnaeth i gynnal a gwella ei chymuned. Roedd ei hegni wrth godi arian yn ddjarhebol. Roedd hefyd yn ddiflino drwy fod yn bresennol i gefnogi ystod hir o weithgareddau. Pan ddewiswyd addysg Gymraeg ar gyfer Carly, enillodd

Ysgolion Cymraeg Caerffili a Chwm Rhymni flynyddoedd o gefnogaeth frwd. Ac nid lleiaf oedd ei hymrwymiad hi a'i gŵr Rodney i'r achos yn Nhonyfelin.

Roedd hi a Rodney wedi bod yn briod ers 1963 a chawsant fab, Timothy a merch, Angela. Gyda nhw eu hwyron Carly, Ellis, Oscar a Molly a'i gorwyres Grace (merch Carly) yr estynnwn ein cydymdeimlad.

# Llywelyn Bren - 1

Ym 1318, wyth gan mlynedd yn union yn ôl, bu farw Llywelyn Bren, un o ddisgynyddion ein tywysog enwog Ifor Bach. Roedd Llywelyn yn arweinydd yn ein bro, yn dadlau dros gyfiawnder i'w thrigolion, yn barod i aberthu ei fywyd drostynt, a chafodd ei ladd mewn ffordd erchyll. Ond pwy sy'n cofio amdano heddiw? Ni does dim sôn am gofeb iddo yn ei gartref yng Ngelligaer, na bwriad gan y Tŷ Weindio, ein hamgueddfa leol, i goffáu ei farwolaeth eleni. Mae yna ddeiseb ar y we ar hyn o bryd, yn galw am godi cofeb iddo ger Castell Caerdydd lle gafodd ei ddienyddio (ewch at <https://chn.ge/2L099sM>) ond oni ddylem ni, trigolion presennol ei fro, fod yn galw ar Gyngor Caerffili i anrhydeddu Llywelyn Bren eleni?

Cyn gwneud hynny, call yw egluro pam y dylem fod yn cofio Llywelyn Bren. Gruffudd, tad Llywelyn, oedd yr olaf o dywysogion annibynnol Senghennydd, yr hen "Gantref Breiniol" oedd yn ymestyn o Gaerdydd i Ferthyr, gydag afonydd Taf a Rhymni yn ffiniau iddo ar y dwyrain a'r gorllewin. Cipiwyd Gruffudd gan Gilbert de Clare, Arglwydd Normanaidd Morgannwg, ac fe'i carcharwyd yn un o gestyll y de Clares yn Iwerddon, lle bu e farw ym 1266.

*Mae yna ddeiseb ar y we ar hyn o bryd, yn galw am godi cofeb i Llywelyn Bren ger Castell Caerdydd lle gafodd ei ddienyddio (ewch at <https://chn.ge/2L099sM>) ond oni ddylem ni, trigolion presennol ei fro, fod yn galw ar Gyngor Caerffili i anrhydeddu Llywelyn Bren eleni?*

Felly erbyn dyddiau Llywelyn Bren roedd awdurdod y Normaniaid yn gadarn dros yr ardal, a chastell newydd anferth Caerffili yn tystio i hynny. Ond roedd Llywelyn yn dal yn ddyn pwysig yn yr ardal hon, yn dal awdurdod dan y Normaniaid. Mae'n bur debyg bod Twyn y Castell, Gelligaer, yn brif lys iddo. I'r llys hwnnw y byddai trigolion yr ardal hon yn mynd i dalu rhent, i ofyn am gyngor, i drafod dadleuon dros ffiniau, eiddo ac etifeddiaeth – ac i gwyno am ormes y Normaniaid.

Pan ddechreuodd Newyn Mawr 1315 – 17 effeithio ar Gymru, roedd gofynion cynyddol y Normaniaid ar ei bobl yn gwasgu ar galon Llywelyn, ac aeth i yr holl ffordd i Lincoln ofyn am gymorth gan frenin newydd Lloegr, Edward II. Ond dyn anwadal iawn oedd Edward, ac er iddo dderbyn cwynion rhai o dywysogion eraill Cymru, gwrthod cais Llywelyn a wnaeth, gan ei gyhuddo o geisio dechrau gwrthryfel ymhlith y Cymry.

Roedd sarhad y brenin, ar ben dioddefaint ei bobl, yn ddigon i beri i Llywelyn benderfynu y byddai'n gwireddu ei gyhuddiad. Yn Ionawr 1316 casglodd fyddin o 10,000 o ddynion (dyna yw honiad croniclau'r cyfnod, er bod y nifer yn edrych yn annhebygol o uchel) ac ymosododd ar gastell Caerffili, gan ladd y Cwnstabl a chipio'r beili allanol. Gosodwyd gwarchae ar y beili mewnol, llosgwyd y dre a lladdwyd rhai o'r trigolion.

Ymledodd y gwrthryfel fel tân gwyllt trwy dde Cymru. Cipiwyd cestyll Cynffig a Llantrisant, ac ymosodwyd ar nifer o rai eraill, o Ddinefwr i Langybi ger Brynbuga. Ymosodwyd ar y trefi fel Caerdydd oedd yn datblygu yng nghysgod y cestyll Normanaidd.

Ond roedd ymateb y Normaniaid yr un mor sydyn, ac roedd eu niferoedd a'u milwyr hyfforddedig yn drech o lawer na'r Cymry yn eu newyn a'u hargyfwng. Erbyn mis Mawrth 1316 roedd y gwrthryfel yn tynnu at ei derfyn, a Llywelyn a'i ddilynwyd ffyddlonaf wedi eu hamgylchynu yn Ystradfellte gan luoedd rhai o arglwyddi mwyaf pwerus y Normaniaid.

Roedd Llywelyn yn wynebu diwedd ei wrthryfel, ei obeithion a'i fywyd hefyd. Roedd ei ddilynwyd, ei 'deulu' o filwyr fyddai'n byw a marw gyda'u harglwydd, yn barod i werthu eu bywydau'n ddrud. Ac yna fe wnaeth Llywelyn rywbeth a enillodd edmygedd ei bobl a pharch ei elynion pennaf.

*Dr Elin Jones*

*Edrychwn ymlaen i ddarllen rhan nesaf yr hanesyn hwn yn rhifyn mis Hydref.*

## Merched y Wawr yn Insole Court



Peth braf iawn ym mis Mehefin yw gweld y Gymraeg yn cael ei dathlu gan bobl Cwm Ni o fewn i furiau tywyll, bygythiol Castell Caerffili a godwyd gan elynion ein cenedl a'n hiaith.

Braf iawn hefyd ym mis Mehefin eleni oedd dathlu'n hiaith a'n diwylliant yng nghwmni Merched y Wawr ym mhlasdy Cwrt Insole yn Llandaf. Codwyd y plas gan deulu Insole ym 1856, fel cartref moethus i'r teulu, ond gyda'r bwriad hefyd o arddangos eu cyfoeth, gan efelychu steil teulu Bute yng Nghastell Caerdydd a Chastell Coch. Daeth cyfoeth yr Insoles o'u pyllau glo yn y Rhondda. Yng Nghwrt Insole mae llafur caled y glowyr yn y llaid a'r llaca wedi ei weddnewid yn dyrau a therasau, yn ffenestri lliw a lloriau *parquet*, yn welydd peintiedig a phlanhigion egsotig.



Ond mae teulu'r Insoles wedi diflannu o'r tir. Disgynyddion eu gweithwyr sy'n mwynhau harddwch y plas heddiw. Trosglwyddwyd yr adeilad a'r hyn oedd yn weddill o'i erddi gwych i Gyngor Caerdydd ym 1932. Erbyn 1988, ar ôl degawdau o lusgo

byw yng ngofal y Cyngor, yn enwedig wedi cyfnod o doriadau cyson ar wariant cyhoeddus, roedd cyflwr y plas a'r gerddi wedi gwaethygu'n fawr, a'i fodolaeth dan fygythiad.

Yna daeth tro ar fyd yr hen blas – a chriw o wirfoddolwyr lleol i ymgyrchu drosto. Gweithion nhw'n ddifflino dros gyfnod o flynyddoedd i godi diddordeb (ac arian) ac i ddadlau achos y plas fel adnodd a chanolfan gymunedol. Coronwyd eu hymdrechion gan nawdd hael Cronfa Treftadaeth y Loteri a noddwyr eraill. Yn 2010 trosglwyddwyd y gofal am y plas a'i erddi i gorff o ymddiriedolwyr.

Gyda'r arian wrth gefn roedd yn bosibl cynllunio i'r dyfodol, gan addasu rhai o'r adeiladau allanol at ddibenion y gymuned, ac adfer y plas ei hun at ddefnydd y cyhoedd. Gwirfoddolwyr sydd yn dal i wneud llawer o'r gwaith cynnal a chadw, ond dan arolygaeth arbenigwyr, a nawr mae modd hefyd i dalu am staff gweinyddol.

Cymry Cymraeg yw llawer o'r gwirfoddolwyr, a rhoddwyd sylw teilwng i iaith a diwylliant Cymru o'r cychwyn. Felly mae'n bosibl trafod a threfnu ymweliad trwy'r Gymraeg. Cafodd criw Merched y Wawr eu tywys o gwmpas y plas gan Charlotte, un o'n dysgwyr disglair sy'n helpu i sicrhau dyfodol yr iaith. Hyfryd oedd ei chlywed yn esbonio ystyr geiriau Lladin, arwyddocâd lluniau a cherfluniau a'r cynlluniau er sicrhau'r dyfodol. Hyfryd hefyd oedd cael gwybod ganddi am y modd mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ddatblygu a chynnal cysylltiadau rhwng y plas a'r cymunedau hynny yn y cymoedd glofaol fu'n sail i gyfoeth yr Insoles.

Mae'r gwaith adfer yn dal i fynd yn ei flaen, ond erbyn heddiw nid y cyfoethogion yn unig sy'n cael mynd mewn trwy ddrysau urddasol y plas. Mae plant yn dod yma i ddathlu pen-blwydd, selogion ffitrwydd i ymarfer ioga, garddwyr i edmygu'r gerddi, cerddorion i ymarfer a pherfformio, parau hapus i ddathlu priodas – a Merched y Wawr Cwm Rhymni i grwydro o gwmpas y tŷ, ac eistedd fel y byddigions gynt i fwynhau disglaid a theisen yn un o'r ystafelloedd moethus!



# Posau'r Plant

gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



|   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | U | Y | B | A | E | D | E | F | G | R | H |
| W | P | C | H | F | N | P | D | F | O | T |   |
| B | E | W | U | L | F | T | W | Y | R | R |   |
| D | N | R | S | A | T | U | R | H | E | W | E |
| E | Y | H | D | B | P | A | L | Y | S | M |   |
| O | L | N | C | A | T | H | A | Y | S | T | O |
| G | A | O | I | G | I | U | C | W | Y | R |   |
| U | N | M | C | Y | N | C | O | E | D | F |   |
| Y | U | N | E | I | S | I | N | A | U | A |   |
| T | R | E | G | A | N | N | A | P | R | L |   |

Mae enw 12 ardal o Gaerdydd yn y chwilair. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

|          |           |          |
|----------|-----------|----------|
| Y BAE    | PENYLAN   | TYLLGOED |
| TREGANNA | CATHAYS   | LLANDAF  |
| TREMORFA | LLANISIEN | TRELAI   |
| GABALFA  | CYNCOED   | Y RHATH  |

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr ar dudalen 17

## Torri Gwallt er budd Alzheimer's



Mae dwy allan o dair merch Nerys Godfrey wedi torri eu gwallt i godi arian ar gyfer achos arbennig o dda – Cymdeithas Alzheimer's.

Bydd y gwallt hefyd yn mynd i'r elusen, Ymddiriedolaeth Y Dywysoged Fach (*The Little Princess Trust*\*). Rydym fel teulu wedi colli Mam-gu a Thad-cu i dementia ac Alzheimer's ac felly mae gweld y merched yn codi arian drwy dorri eu gwallt yn ffantastig!!!

Mae Cymdeithas Alzheimer's yn awyddus iawn i ledu ymwybyddiaeth ac yn enwedig ymysg plant ifanc. Dyma lun o'r digwyddiad !!!!

\*= Mae'r elusen yma yn darparu wigiau wedi'u gwneud o wallt go iawn am ddim i blant a phobl ifanc sy wedi collu eu gwallt o ganlyniad i ganser ac alopecia. JP

## CANOLFAN Y GLOWYR

Un o'n hamcanion yng Nghanolfan y Glowyr yw dod â'r cenedlaethau ynghyd. Felly gwahoddwyd ein llysgenhaddon cynradd yn ddiweddar i ymuno â dosbarth ymarferion cadair rhai o'n haelodau hŷn, sef yr Aeron Aeddfed. Dyma adroddiad Tayla o Ysgol y Castell yn disgrifio'r prynhawn llwyddiannus.

### ***Fy Adroddiad Am Y Sesiwn Rhwng Cenedlaethau yng Nghanolfan y Glowyr***



Pan aethom ni i Ysbyty'r Glowyr, cawsom sesiwn hyfryd gyda grŵp o'r henoed, Yr Aeron Aeddfed. Fe wnaethom ni ddawnsio gyda ein traed, tapio ein dwylo a thraed ac ymestyn ein cyrff gyda bandiau mawr rwber hefyd. Mae'r ymarfer hwn tra'n eistedd yn wych ar gyfer cadw'n heini i'r henoed ac yn llawer o hwyl a sbri. Roedd yn hyfryd i glywed yr hen a'r ifanc yn pwffian chwerthin nerth eu pennau gyda'i gilydd.

Ar ôl hynny, fe wnaethom ni ymlacio gyda diod a bisged siocled blasus. Yna, ysgrifennom gwestiynau i holi'r henoed. Fe wnaethom ddarganfod bod y mwyafrif ohonynt wedi cael eu geni neu wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty neu hyd yn oed yn nyrsys a oedd yn gweithio yna yn y gorffennol.

Yn fy marn i, mae mynd i'r hen ysbyty yn dda oherwydd mae cyfle gyda ni i ddysgu pethau gwahanol am yr ysbyty, ei hanes a'i bwysigrwydd. Roedd hi hefyd yn braf iawn i gwrdd â phobl o ysgolion eraill a mwynhau ein hunain gyda'r henoed.

gan Tayla Llysgennad Ysgol Y Castell.

## Tîm Cwis Llyfrau Caerffili

Yn y rownd gyntaf o'r gystadleuaeth cwis llyfrau Darllen Dros Gymru 2018, wnaethon ni drafod llyfr o'r enw 'Y Llyfr Ryseitiai, Gwaed y Tylwyth' gan Nicholas Daniels. Llyfr cyffroes ac anturus yw 'Gwaed y Tylwyth' a chafon ni hwyl yn siarad amdano. Enillon ni le 1af yn y gystadleuaeth a chyraedd y rownd genedlaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Darllenon ni lyfr or enw 'Y Biliwnydd Bach' gan David Walliams a pharatoi cyflwyniad dramatig i annog plant i ddarllen y llyfr. Cafon ni lawer o hwyl yn gwisgo lan ac actio'r cymeriadau doniol.

Ein hail lyfr i'w drafod oedd 'Stori'r Brenin Arthur' gan Sian Lewis. Stori hudol oedd Stori'r Brenin Arthur. Ein hoff gymeriadau oedd Arthur, Morgana, Cai a Myrddin.

Ysgrifennon ni gerdd tymhorau gyda Casia William, Bardd Plant Cymru yn y prynhawn. Roedd hi'n ffantastig. Llwyddon ni i gael ei llofnod a phrynu un o'i llyfrau gwreiddiol neu un o'i haddasiadau. Hi sydd wedi addasu storïau Michael Morpurgo!

Aethon ni am daith o gwmpas campws y Brifysgol ac i weld y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd y gwobrwyo ar ddiwedd y dydd yn wych a chafon ni lyfr i gofio ein profiadau cwis llyfrau.



***Y plant gyda Casia Wiliam***

gan Alice a Mili, Ysgol Gymraeg Caerffili

# Diwrnod y Cadeirio



*Cadair Craft-Wales,  
Ystrad Mynach*

Fore Mawrth  
12fed o  
Orffennaf y  
gwelwyd  
Gorsedd yn  
ymgynnull yn  
neuadd  
newydd Ysgol  
Gymraeg  
Caerffili.  
Arweiniwyd y  
seremoni  
wedyn gan yr  
Archdderwydd  
serchog Gruff  
Williams.  
(Bydd rhai o'n  
darllenwyr yn  
cofio ei fam,  
Lisa Skelding yn  
ddisgybl yn yr  
ysgol.)

Ei orchwyl gyntaf oedd annog y gynulleidfa i gydganu “Dros Gymru’n Gwlad” ac yna adroddwyd Gweddîr Orsedd cyn iddo gyflwyno'r beirniad. A hwn oedd yr unfed tro ar hugain i'r cyfaill Dafydd Islwyn gyflwyno beirniadaeth ar gyfer seremoni Gadeirio yn yr ysgol.

Roedd y bardd a'r cyn-athro wedi'i blesio'n fawr gan y 57 stori a ddaeth i law. Ac, fel pob tro arall, roedd yn awyddus nid yn unig i longyfarch yr athrawon am eu gwaith ond, hefyd, i'n hatgoffa bod athrawon ar hyd y blynyddoedd wedi sefydlu a hogi sgiliau ysgrifennu'r plant.

Gwelai mor hawdd roedd y plant yn defnyddio termau modern cyfredol megis “tecstio”, “Instagram”, “SatNav” ac ati. Diolchodd yn arbennig i Mr Bean am iddo yntau ddiolch i'r beirniad, ar ddiwedd ei stori, am ei darllen. Roedd hi'n rhyddhad hefyd nad oedd neb wedi dewis enw pêl-droediwr yn ffugenw!

Synnodd y beirniad at ddychymyg y plant a theimlai mai “arlunydd mewn geiriau yw plentyn”. Dyfynnodd nifer o bytiau oedd wedi dal ei lygaid fel, “môr o wallt”, “coed, cryf cadarn yn sefyll fel milwyr”, “gwisg ddu yn bygwth pawb” a “llygaid mawr gwyrdd fel glaswellt gwlyb”, “personoliaeth ryfedd ond calon gynnes”, “yr haul yn boddi y tu ôl i'r mynydd”, “Gwgl o ymennydd” a “lluniau wedi blino hongian ar y wal”. Roedd Dafydd Islwyn hefyd yn canmol y defnydd a wnaed o idiomau megis, “codi cyn cwn Caer” ac “yn hapus fel y gog”.

Roedd nifer o'r cystadleuwyr yn haeddu cydnabyddiaeth megis, “Jaci”, “Eli'r Eliffant” a “Nant” ond rhaid oedd neilltuo ond tri chystadleuydd at bwrpas y seremoni a gwfreiddiol oedd gweld pob un yn codi yn ei dro ar alwad yr Archdderwydd. “Aeron” sef Ffion Williams gafodd fynd â'r Gadair fach adref; “Rala Rwdins” neu Gwen Cadwallader ddaeth yn ail iddi gyda “Iogo Shinderw”, Gruff Thomas, yn drydydd.

Cynhaliwyd y Cadeirio bob blwyddyn yn yr ysgol ers 1982 ac mae enw pob enillydd ar y plinth dan y Gadair fach. Gobeithio y caiff plant y blynyddoedd i ddod gael y cyfle i flasgu gwefr un o'n traddodiadau cenedlaethol.



# TAITH I SBAEN

*Mae Wendy Lewis (Bedwas) yn rhannu ei hatgofion â ni o daith arall i Sbaen.  
Mae'n ddiddorol nodi mai Amercianses sydd wedi meistroli'r Gymraeg yw Wendy.*

**Dydd Mawrth 17<sup>eg</sup> o Ebrill 2018**

Bant â fi i ymuno ag Undeb Llafur y Gogledd  
Orllewin i gofio 80 mlynedd ers Rhyfel Cartref  
Sbaen. Taith hawdd wrth i'm trwydded fysiau roi  
taith yn rhad ac am ddim i'r maes awyr a €5 yr  
noll ffordd o faes awyr Barcelona i Calafell: O am  
system drafnidiaeth gyhoeddus gyda buddsoddiad  
addas mewn isadeiledd tebyg i un Sbaen! Yn y  
maes awyr dilynais fenyw â bag y Coop i ofyn y  
ffordd o'r derfynfa i orsaf y trên - modern, cyflym  
ac aml.

Mae Calafell yn llawn bwytaï Eidalaidd, ond y tu  
allan i'r tymor, mae eu hanner ar gau tan yr haf.  
Beth bynnag, daethom o hyd i le gwyh i ginio.

**Dydd Mercher, 18<sup>fed</sup> o Ebrill**

Mae Gwesty'r Silken Canada'r ochr draw i'r orsaf. Gyda'r prif grŵp yn cyrraedd y diwrnod canlynol, neidiodd pedwar ohonom o Gymru ar fws i edrych o gwmpas Tarragona. Rhodfa lydan â choed bob ochr yw Rambla Nova, gyda chelf gyhoeddus hen a modern ar ei hyd. Yn yr hen dref mae waliau Rhufeinig ac olion amffitheatr, bwâu a ffynhonnau.

Heddiw mae Catalunya mewn dyfroedd gwleidyddol aflonydd â'r llywodraeth wedi'u cloi allan o'u swyddi. Mae baneri "Rhyddhewch Garcharorion Gwleidyddol" yn crogi wrth ochr baneri Catalan ar ran fwyaf y balconïau, gydag ambell faner Sbaeneg i dawelu'r anghydfod sydd rhwng cymdogion mewn anghytundeb gwleidyddol a mud â'u cymdogion. Clymir rhubanau melyn, yn symbol o'r ymgyrch dros garcharorion gwleidyddol o gwmpas y coed ar ffensiâu a chânt eu gwisgo ar fathodynau. Mae murluniau a graffiti ym mhobman.



Mae yna blac yn ymddiheuro am waharddiad Isabella o'r gymuned Iddewig. Bu'r gymuned yn ffyniannus, diolch i Isabella yn 1492, adeg mordaith Columbus.

Wedi cinio hyfryd o gaws geifr, salad, risotto a fflan, fe ddringon ni i fyny tuag at Part Alta, yr hen chwarter; ond yn gyntaf, siop goffi mewn caffi bach iawn yn cael ei redeg gan Archentwraig yn gwerthu siocled cyfoethog melyn, gan adrodd chwedlau am Buenos Aires. Mae cerfluniau o dyrau dynol Catalanaid - Els Castells - yn symbol o undod y gymuned Gatalanaidd. (*Gweler y llun ar y clawr.*) Mae ffynonellau o adeg gynharach yr Ymerodraeth, fel celf gyhoeddus oes Fictoria, yn darlunio stereoteipiau hiliol ac anifeiliaid egsotig. Dychwelsom i Calafell am hufen iâ ar y traeth a mynd am dro.

**Dydd Iau, 19<sup>eg</sup> o Ebrill**

Buom yn archwilio Calafell, gan gerdded i  
fyny'r strydoedd serth a chul i'r castell,  
wedi'i adeiladu ar sefydliadau Oes Haearn y  
troglodytes, gyda chanrifoedd o adeiladu.  
Yma cafodd y werin eu chwyldro yn 1640:  
felly canais Els Segadors gyda derbyn-wraig  
yr amgueddfa: "Nawr yw'r awr, loffwyr!"

Arweiniodd y daith ni drwy'r pentref ar frig y bryn heibio i ddeialau haul cerameg addurniadol. Yno cawsom ginio, €10 am 3 chwrs: salad tiwna mawr, lasagne mozzarella ac aubergine a tiramisù. Cyrhaeddodd gweddill grŵp yr Undebau Llafur a dalion ni fws i ymyl Calafell i ymweld â chartref pentref plentyndod Pablo Casals. Roedd yn Gatalanwr balch o'i dreftadaeth. Disgrifiodd y cyflwyniad clywedol ei gefndir cerddorol a'i waith teyrngarol yn cefnogi ffoaduriaid o Sbaen o gwmpas y byd, yn ogystal â'i wrthwynebiad i arfau niwclear. Gwrthododd fynd yn ôl i Sbaen tra roedd Franco mewn grym gan feirniadu'r Unol Daleithiau a'r Deyrnas Gyfunol am gefnogi'r unben. Wedi taith gerdded hardd 3km ar hyd y traeth aethom yn ôl i lan y môr, cyfarfyddom â Manuel Moreno ac Anna. Rhoddon nhw sgwrs i ni gan egluro brwydr yr Ebro gyda mapiau ac adroddiadau cyfoes yn dangos sut wedi llwyddiant dechreuol byddin y Gweriniaethwyr a'r rhai rhyngwladol, cymaint gwell arfau oedd gan y milwyr Almaenig ac Eidalaidd yn eu gwrthio tuag at lannau'r afon Ebro yn don ar ôl ton.

## Dydd Gwener 20<sup>fed</sup> o Ebrill



***Y grŵp yn cerdded tuag at yr ysbyty mewn ogof yn Falset lle bu farw Harry Dobson, Tonypandy***

Dechreuon ni allan yn gynnar mewn coets ar hyd mynyddoedd serth i Bisbal de Falset, lle'r oedd ysbyty maes y Frigâd Ryngwladol a lle defnyddiwyd technegau trallwysu gwaed arloesol yn ystod brwydr Ebro. Mae'n anodd dychmygu y daith o'r ffrynt y byddai'r clwyfedig wedi'i chymryd yn 1938, ar heolydd brwnt, tyllod ar fulod neu ambiwlans cyntefig. Mae'r ysbyty mewn ogof wedi'i chuddio gan ganopi creigiog: yn rhyfeddol fas, prin fyddai wedi cynnig lawer o gysgod rhag yr elfennau. Byddai

sawl llawdriniaeth wedi eu gwneud gyda'r nos gydag ond ychydig o olau. Mae llun o Harry Dobson o Donypandy yn derbyn trallwysiad gwaed yn yr ogof. Wedi cinio yn Vinebre aeth y goets â ni i Gandes lle gosodwyd torch o flodau wrth gofeb y Frigâd Ryngwladol.

## Dydd Sadwrn 21<sup>ain</sup> o Ebrill

Cyflwynodd cyfarwyddwr yr amgueddfa ni i arddangosfa yn amgueddfa Gandes o luniau o hedfanwyr Sbaeneg ac Almaenig Rhyfel Cartref Sbaen. Fe'n cyfarchwyd gan fab i beilot, Gweriniaethwr Sbaeneg a sefydlodd gymdeithas hedfanwyr. Darllenodd Tosh MacDonald, ysgrifennydd cyffredinol ASLEF lythyr oddi wrth Jeremy Corbyn yn cefnogi cofiant y frwydr wrth-ffasgaid. Siaradodd am gydsafiad â Phalestina ac am refferendwm Catalan, lle mae eu llywodraeth mewn carchar neu'n alltud ar sail cyfraith Franco ar annog cynnwrf.

Gyrron ni i fyni i'r mynyddoedd uwchben afon Ebro, lle'r oedd tystiolaeth o'r gwrthdaro rhyferthol mewn rhannau o'r ffosydd sydd wedi'u cadw'n dda. Bu cymaint farw, fe'u gadawyd yn y man lle roedden nhw wedi syrthio. Daeth y safle yn esgyrnyd a chofiant. Mae lluniau'r meirw hyd y waliau - rhai ohonynt yn rhan o frigâd "poteli babanod" y milwyr yn eu harddegau a gonsgriptiwyd i fyddin Sbaen, eu hwynebau'n syllu allan o blith y meirw. Ymhlith y rhai a laddwyd oedd Tom Howell Jones o Aberdâr. Disgrifiwyd ei farwolaeth gan y Brigadyddion Rhyngwladol Alun Menai Williams ac Edwin Greening. Mwynhaodd y ddau lond bws - Saeson, Gwyddelod, Ffrancwyr a Sbaenwyr - bryd anferth a'u difyrru gan gerddi a chaneuon. Wedyn, yn cerdded drwy strydoedd Gandes, bydden ni'n gweld wynebau cyfarwydd ar bob cornel, mewn caffis a thafarndai.



***Mary Greening, merch Edwin Greening o Aberdâr, oedd yn y Frigâd Ryngwladol yn dangos sedd i gofio'r Frigâd Ryngwladol i Manuel Moreno, a oedd wedi ffoi rhag Franco gyda'i deulu a dod i Brydain gyda rhai eraill oedd yng Nghartref Basg Caerleon.***

## Dydd Sul 22<sup>ain</sup> o Ebrill

O'r braidd y gallai ein bysiau mawr yrru o gwmpas yr heolydd cul oedd yn codi i fyny i ddadfeilion Corbera d'Ebre ar frig y bryn. Cerddon ni'r darn olaf i'r hen dref, y Poble Vell. Wedi'i ddistrywio gan Franco, mae'n deyrnged drawiadol i waith y cerflunydd Jesus Pedroal (cyfarfuom ni ag ef yn ystod dau ymweliad blaenorol) a drodd safle o ddifrod llwyr yn ddatganiad o oroesi a gobaith am heddwch. Comisiynwyd beirdd ac artistiaid i ddarlunio pob llythyren o'r wyddor yn thema ryfel a heddwch: "T" am "terror", "I" am "Idealism".

Gosodwyd torch gan wyrion Sid Booth a Fanceinion ac i Tom Howell Jones a chanais i Calon Lân gyda Judith, ei gŵr Steve, Mary Greening a dau gynrychiolydd o Lanelli..

Yn adfeilion yr eglwys roedd arddangosfa glyweled yn dangos cyfweiliadau tystion



distryw Corbera oedd yn galw i gof ddychryn y bomio.

***Judith Langdon yn ymweld â'r ffosau yng nghwm Ebro lle bu farw ei hen wncwl, Tom Howell Jones o Aberdâr***

# Y CRIW Mentrus

## Caffi Ysgol y Lawnt yn y Rownd Derfynol

Ddydd Mawrth, y 3ydd o Orffennaf, fe aeth pedwar aelod o flwyddyn chwech Ysgol y Lawnt i Rownd Derfynol Genedlaethol y Criw Mentrus. Cystadleuaeth yw hon i ddod o hyd i'r fenter fusnes orau gan entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru gyfan ac mae'n fenter Llywodraeth Cymru.

Ar ôl cael ein dewis yn y Rownd Rhanbarthol ym Mlaenafon, roeddem yn falch iawn ac yn awyddus i hrwyddo ein busnes unwaith eto!



Ein busnes ni yw 'Caffi Clic a Chlone!' ac mae'r caffï ar agor yn ein hysgol bob bore Gwener o 8.40yb i 10.30yb. Rydym yn agored i bawb, a'n prif bwrpas yw addysgu Cymraeg a datblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth i'r rhieni a'r gymuned leol. Rydym yn brysur yn gweinyddu rholiau cig moch, rholiau sel-sig, a dewisiadau llysieuol, yn ogystal â the a choffi!



Cynhaliwyd y Rownd Derfynol ym Mhrifysgol Caerdydd ac fe'i mynychwyd gan Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, a chafodd argraff dda iawn o'n sgiliau entrepreneuriaid â ni mor ifanc!

Yn ystod y dydd cawsom gyfweiliad gan bum arweinydd busnes a bu'n rhaid i ni gyflwyno rap o flaen dros gant o bobl! Roedd yn brofiad gwych i entrepreneuriaid ifanc fel ni ac yn gyfle gwych i ddangos ein caffï i bawb!

Roeddem wrth ein bodd pan gyhoeddwyd ein bod yn ail ar ddiwedd y gystadleuaeth a derbynion ni blac arbennig a llawer o dystysgrifau. Cafodd Ffion Williams hefyd lwyddiant mawr fel enillydd Seren y Criw Mentrus am ei hymdrech ragorol yn ystod y cyfweiliadau. Rydym mor falch o'n busnes ac rydym wedi dysgu llawer o'r profiad hwn! Gwylwch mas Alan Sugar !!

### Parhad o "Taith i Sbaen"

#### Dydd Llun 23<sup>ain</sup> o Ebrill

Fiesta San Jordi - mae'r sant Palestinaidd Sior yn cyrraedd pob man: Lloegr, Cernyw, Catalwnia - caiff ei ddathlu yng Nghatalwnia fel math o Santes Dwynwen.

Mae dynion yn rhoi rhosynnau i'w cariadon - yn draddodiadol yn goch, ond eleni yn felyn er anrhydedd i garcharorion gwleidyddol, a llyfrau mae menywod yn rhoi yn ôl. Treulïom y bore yn fforio yn Sitges, gan bori mewn stondinau llyfrau ar hyd glan y môr ac yn mwynhau'r haul. Roedd Barcelona yn llawn torfeydd yn dathlu San Jordi, ond roedd yn rhy bell i fynd am y diwrnod. Felly, wedi dychwelyd i Calafell yn gynnar yn y prynhawn, neidion ni ar y trê'n am y daith fer i Sitges am yr ŵyl yn ystod yr hwyr.

Gosodwyd safle seindorf i fyny, a chymerodd y cerddorion eu lle - bas dwbl, pres, chwythbrennau â chlychau metel. Wrth iddynt chwarae, daeth cylch ynghyd, ac yn fuan llanwyd y stryd â phobol yn dawnsio'r Sardana.

Roedd yn ddiwedd glo priodol i'n hymweliad, wrth i'r ysbryd gwydn dynol fod yn oruchafiaeth dros drasiedi hanes diweddar Sbaen.



# Ysgol Gyfun Gwent Is Coed



YSGOL GYFUN  
GWENT  
IS COED

Mae'r stori yn dechrau yn gynnar yn ystod chwedegau'r ganrif o'r blaen pan gaewyd nifer o weithfeydd dur mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, fel Llanelli a Phontardawe. O ganlyniad aeth y gweithwyr i ddilyn eu crefft yng ngwaith dur newydd Llanwern. Roedd nifer o'u plant yn Gymry Cymraeg ond doedd dim ysgolion Cymraeg i'w cael yn yr ardal. Felly, cafodd y plant eu haddysg yn Ysgol Gynradd Rhisga lle byddai athrawes yn dod i mewn ddwywaith neu dair yr wythnos i roi gwersi iddynt yn y Gymraeg – ond cafwyd nad oedd Cymraeg yr athrawes cystal â iaith ei disgyblion! Wedi hyn, cafwyd ymgyrch i sicrhau addysg Gymraeg ar gyfer plant Sir Fynwy hefyd.

Yn sgil hyn daeth Ysgol Gymraeg Casnewydd i Hartridge..... yna Ysgol Ifor Hael i orllewin y ddinas..... yn fuan wedi hynny Ysgol Bro Teyrnnon. A nawr y penllanw – Ysgol Gyfun Gymraeg i wasanaethu'r tair ysgol gynradd, sef Ysgol Gwent Is Coed yn ardal y Dyffryn.

Ac arwyddocâd yr enw? Gwent Is Coed yw'r hen ardal gyn-Normanaid y drws nesaf i Gwynllwg (sydd rhwng Is Coed â Chantref Senghennydd). Roedd yn gorwedd ar arfordir y de-ddwyrain ar lan Môr Hafren, y drws nesa i Loegr, gydag Afon Wysg yn dynodi'r ffin. Dywedir ar sawl cyfrif, mai Gwent Is Coed oedd yr ardal bwysicaf yn y Gymru Rufeinig. Yma y codwyd dinas Rufeinig Caerleon-ar-Wysg neu Isca (ar safle Caerllion heddiw), a ddaeth yn bencadlys yr Ail Leng Rufeinig (Legio II Augusta). Gerllaw roedd Caerwent (Venta Silurum), prifddinas y Silures.

Dechreuodd yr ysgol y llynedd ar safle Ysgol Bro Teyrnnon am nad oedd yr adeiladau a fwriadwyd ar ei chyfer wedi'u cwblhau. A nawr, ym mis Medi 2018, wele'r ysgol yn symud i mewn i adeiladau hardd y drws nesa i'r ysgol gyfun leol, Ysgol John Frost.

Mae lle yn yr adeiladau newydd i 900 o blant, 700 ar gyfer plant Blwyddyn 7 i 11 a lle i Chweched Dosbarth o 200 o ddisgyblion. Y cyfan oll dan arweiniad y pennaeth, Rhian Dafydd. Gwelir Rhian yn y llun gyda rhai o'r disgyblion ynghyd ag Elin Maher, cadeirydd y llywodraethwyr. Dau apwyntiad haeddiannol a phwrpasol.



Elin wnaeth mwy na neb i arwain yr ymgyrch i sefydlu'r ysgol gyfun newydd. A hanes Rhian, y pennaeth, yw hanes datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngwent. Oherwydd roedd hi'n un o ddisgyblion cyntaf yr uned Gymraeg yn Rhisga, lle tarddodd yr ysgolion Cymraeg eraill hyn.

**Cwmni**

## CYFARFOD BLYNYDDOL

Ysgol Gymraeg Caerffili

7:30 Nos Lun, 17eg o Fedi

Croeso Cynnes i Bawb

Dewch i Draffod ac i Fynegi Barn

Mae pob cystadleuaeth yn hunan-ddewisiad oni nodir yn wahanol

## Adran Gynradd

1. Unawd BI 2-4
2. Unawd BI 5-6
3. Llefaru BI 2-4
4. Llefaru BI 5-6
5. Llefaru i ddysgwyr BI 6 ac iau
6. Unawd Offerynnol BI 6 ac iau  
*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*
7. Cyflwyniad Cerddorol / Theatrigrig  
Thema Agored Cyntaf £25

*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio.*

*Perfformiad heb fod dros 10 munud o hyd.  
Bydd angen cyflwyno copi o'r sgript a'r thema wrth gofrestru.*

8. Côr BI 6 ac iau  
*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd a dim mwy na 2 ddarn*  
1af £75 + cwpan 2ail £50 3ydd £30

9. Dawnsio Gwerin Unigol BI6 a iau  
*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 3 munud o hyd \*\**

10. Dawnsio Disgo Unigol BI6 ac iau.  
*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio.  
Dawns heb fod dros 3 munud o hyd \*\**

11. Dawnsio Grŵp Gwerin BI 6 ac iau  
*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 4 munud o hyd\*\* +*

12. Dawnsio Grŵp Disgo BI 6 ac iau  
*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 4 munud o hyd\*\*+*

## Adran Uwchradd

13. Unawd BI 7-9  
*Perfformir 1 darn yn unig*

14. Unawd BI 10-13  
*Perfformir 1 darn yn unig*

15. Llefaru unigol Oedran Uwchradd  
*Perfformir 1 darn yn unig*

16. Llefaru Unigol i Ddysgwyr Uwchradd  
*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*

17. Grŵp Llefaru i Ddysgwyr Uwchradd  
*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd* 1af £25

18. Dawnsio Gwerin Unigol Uwchradd  
*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 3 munud o hyd \*\**

19. Dawnsio Disgo Unigol Uwchradd  
*Dawns heb fod dros 3 munud o hyd \*\*  
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio.*

20. Dawnsio grŵp Disgo Uwchradd  
*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd\*\*+  
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio*

21. Dawnsio grŵp Gwerin Uwchradd  
*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd\*\*+  
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio*

22. Unawd Offerynnol Uwchradd  
*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*

23. Ensemble Offerynnol Uwchradd  
*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd* 1af £25

**Rhoddir gwobr o £50 am berfformiad mwyaf addawol Oedran Uwchradd yng nghystadlaethau 13-16, 18-19 a 22**

**\*\*Cynhelir y cystadlaethau yn y neuadd ddawns ac fe fydd y buddugol yn perfformio ar y prif lwyfan**

**+ Cyflwynir 'Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm' i'w gadw am flwyddyn â gwobr o £100 i'r grŵp dawnsio mwyaf addawol ym marn y beirniaid i gystadlaethau 11, 12, 20, 21 a 34**

## Adran Hŷn / Agored

### 24. Unawd Lleisiol Agored

Perfformiad o 1 darn yn unig

1af - £50 2ail - £30 3ydd £20

### 25. Unawd Canu Emyn

Unrhyw emyn allan o Caneuon Ffydd

1af £20 2il £15 3ydd £10

### 26. Unawd Sioe Gerdd Agored

Darperir cyfeilydd swyddogol

Perfformiad ddim yn fwy na 5 munud

1af £50 2il £30 3ydd £20

### 27. Llefaru Agored Unigol

Cyflwyniad hunan-ddewsiad heb fod dros 5 munud

mewn hyd ac fe ellir defnyddio unrhyw ffynhonnell

1af £50 2ail £30 3ydd £20

### 28. Grŵp Llefaru Agored

Cyflwyniad o 1 darn yn unig

1af £50 2ail £30 3ydd £20

### 29. Côr Ieuentid B1 13 ac Iau

2 ddarn cyferbyniol yn unig

1af £100 2il £50 3ydd £30

### 30. 2awd, 3awd neu 4awd Cerdd Dant

1af £50 2ail £30 3ydd £20

### 31. Parti neu Gôr Cerdd Dant

1af £50 2ail £30 3ydd £20

### 32. 2awd, 3awd neu 4awd Cloccio

1af £50 2ail £30 3ydd £20

### 33. Parti / Côr Gwerin Agored

Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd. Nid oes hawl perfformio yr un darnau yng nghystadleuaeth 37

1af £50 2ail £30 3ydd £20

### 34. Grŵp Dawnsio Agored

Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio Dawns heb fod dros 4 munud o hyd +

1af £100 2ail £50 3ydd £25

### 35. Côr Agored

### Wedi ei Noddi gan CÔR

Perfformiad ddim yn fwy na 8 munud.

Unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer. Cyflwyno 2 ddarn cyferbyniol ac i gynnwys 1 darn gan gyfansoddwr o Gymru

1af - £300+ cwpan 2ail - £200 3ydd £100

## Adran Lenyddiaeth

### 36. Cystadleuaeth Lenyddol Agored Cynradd

Gwobr o £25

Thema: Agored

### 37. Cystadleuaeth Lenyddol Agored Uwchradd

Gwobr o £25

Thema: Agored

Gall fod yn gerdd, ymson, stori ddychmygol, neu yn rhan o ddyddiadur.

Caniateir cyflwyno un darn o waith yn unig i'r gystadleuaeth yma.

### 38. Limerig

£10 i'r buddugol- i gynnwys y llinell

'Aeth Neli i fyny i'r Bala'

### 39. Cerdd

Heb fod dros 50 llinell ar y thema 'Newid' £10

### 40. Englyn ar y thema 'Y Telynor'

£10

\*Yr un testun ag Eisteddfod Genedlaethol 1918

### 41. Llinell Goll – Cystadleuaeth ar gyfer noson yr

Eisteddfod Gofynnir am £1 ar y noson i gystadlu

## Adran Ffotograffiaeth Agored i unrhyw oed

### 42. Cyfres o luniau ar y thema 'CHWEDLAU'

1af £15 2ail £10 3ydd £5

### 43. Llun unigol ar y thema 'TEULU'

1af £15 2ail £10 3ydd £5

## RHEOLAU CYSTADLAETHAU LLENYDDOL A FFOTOGRAFFIAETH

1. Dyddiad Cau derbyn y gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth yw **Dydd Llun yr 8fed o Hydref**.

2. Gellir danfon lluniau yn ddigidol neu wedi eu hargraffu.

3. Derbynnir y mathau canlynol o luniau - Jpeg / Tiff / PDF.

4. Wrth ddanfon y gweithiau at yr Eisteddfod, derbynir y byddant o bosib yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Eisteddfod ac yn y Papur Bro lleol – 'Cwmni'.

5. Gobeithiwn y bydd y lluniau a'r gwaith celf i'w gweld ar y noson yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Campws y Gwyndy.

**Dyddiad Cau Cofrestru i Gystadlu a danfon y gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth**  
**Dydd Llun - 8fed o Hydref**



Mae gofynion cystadleuaeth 35 - Côr Agored yn 'Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru'

Bydd cystadlu mewn dwy Eisteddfod rhwng Mai 2017 a Mai 2019 yn rhoi'r hawl i'r côr gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Conwy 2019

# Colofn Dafydd Islwyn

Enillwyd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Caerffili 1950 am ei “Awdl Foliant i'r Glöwr” gan y Parchedig Gwilym R. Tilsley, Aberdâr, bryd hynny. Hon oedd ei Gadair Genedlaethol gyntaf. Etholwyd y Prifardd Tilsli yn Archdderwydd Cymru a gweinyddodd rhwng 1969 ag 1972. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach dychwelodd y Genedlaethol i Gwm Rhymini, i ben ucha'r cwm. Testun yr awdl oedd “Gwythiennau” a'r bardd Cadeiriol oedd Myrddin ap Dafydd, Llanrwst. Ef fydd Archdderwydd Cymru o 2019 hyd at 2022. Yn y ddwy eisteddfod cafwyd dwy awdl sy wedi ennill eu lle yn hanes yr awdl yn y Genedlaethol.

Rhestraf Myrddin ymhlith ein beirdd gorau. 'Nôl yn 1974 y daeth i sylw llengarwyr Cymru. Mis Ionawr y flwyddyn honno enillodd wobwr englyn y mis Y Cymro am ei englyn “Cesair”,

Clywaf mai'r gaeaf a'i gur – yw'r rheswm  
Am y trais o'r awyr;  
Eto ni allai natur  
Roi ei dig mewn cesair dur.

Roedd yn gystadleuaeth gref. Gosodwyd dau ddeg tri englyn yn y dosbarth cyntaf. Disgybl yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst, oedd ef ar y pryd. Ef oedd bardd Cadeiriol Eisteddfod yr Urdd Y Rhyl, Sir y Fflint, y flwyddyn honno am gyfres o gerddi ar y testun “Yfory”. Testun yr englyn yn yr eisteddfod honno oedd “Disco”. Dyma englyn buddugol Myrddin,

Mae gwŷs ei nwydus nodau – yn swyno  
Ein synnwyr a'n greddfau,  
Yno ceisir, â llygaid cau  
Rhyw ias o'r cynnaroesau.

Yn Y Cymro ar y 15fed o Ebrill 1975 cyhoeddwyd ei englyn “Cofio T. H. Parry-Williams” a fu farw yn gynharach y flwyddyn honno,

Er i boen y dihoeni – ei gydio  
A'n gadael mewn moelni,  
Erys tra bydd Eryri,  
Doniau ei waith gyda ni.



Yn y Genedlaethol yng Nghaernarfon yn 1979 roedd Myrddin yn aelod o dim Maes Pebyll – y tîm a weithiodd yr englyn i'r Jac Codi Baw â'r esgyll cofiadwy,

Ac i graen rhoed pedigri  
Pencampwr ponciau Wimpi.

Dim ond un ymryson y mae Myrddin wedi ei golli dros Gaernarfon. Collodd un Ddydd Iau, 9fed o Awst 1990 am resymau amlwg. Mae'n siŵr fod yr englyn a weithiodd ef i longyfarch Elwyn Edwards ar ennill y Gadair yng Nghasnewydd ddydd Iau, y 4ydd o Awst 1988 ymhlith goreuon yr Ymryson. Ni chlywais y Babell Lên erioed mor dawel wrth i Gerallt drafod yr englyn,

*“Rhestraf Myrddin  
ymhlith ein beirdd  
gorau”*

Wedi i wae'r storom dorri - wedi i'r mell  
Daro mysg y deri  
Wedi dwyn d'un annwyl di,  
Y mae hedd yma iddi

“Storm” oedd y testun, ac awdl goffa i'w fam ydy awdl Elwyn.

Athro barddol Myrddin oedd y diweddar R. E. Jones, clamp o englynwr. Mynegodd ef ei werthfawrogiad,

Dyled un wrth sawdl ei dad – yw 'nyled;  
Calon pob ysgogiad  
R.E. oedd fy ymroddiad,  
R.E. yw fy nyfal barhad.


Mae ei englyn “Ysgol Brofiad” yn un gafaelgar hefyd,

Rhoi i oes ddyfalbarhad – a dysgu  
Drwy dasg, nid arholiad;  
Gweld her mewn camgymeriad,  
Ym mhoen y wers, cael mwynhad.

Helo bawb. Gobeithio i chi fwynhau misoedd yr haf a nawr yn barod i ail-ddechrau eich gwersi Cymraeg. Un ffordd dda o wella eich defnydd o'r iaith yw defnyddio idiomau neu ddywediadau. Mae llawer o'r rhain ar gael yn Gymraeg ac maen nhw'n aml yn ddiddorol a lliwgar. Byddwn ni'n edrych ar idiomau yn ystod y misoedd nesaf. Cofiwch eu bod yn idiomau bydd pobl yn eu defnyddio wrth siarad Cymraeg bob dydd.

Felly dyma bump idiom i ddechrau. Ar ôl i chi eu darllen, penderfynwch pa idiom sy'n ffitio i'r bwllch ym mhob un o'r brawddegau sy'n dilyn. Mae'r ateb ar dudalen 19.

- a) Fel gafr ar daranau ( *like a goat in thunder* ) : nerfus ac aflonydd iawn
- b) Byw fel iâr dan fwced ( *living like a chicken under a bucket* ) : ddim yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen o'ch cwmpas
- c) Fel cath i gythraul ( *like a cat to a devil* ) : symud yn gyflym iawn. Cofiwch ein bod yn cysylltu cathod â gwrachod.
- ch) I'r pant y rhed y dŵr ( *water runs into the valley* ) : mae pobl sydd â llawer o arian yn cael mwy
- d) Mae rhyw ddrwg yn y caws ( *there's something bad in the cheese* ) : amau bod problem ond ddim yn gwybod beth yw e




1. Enillodd y bobl drws nesaf, sy'n byw mewn tŷ mawr crand, arian ar y loteri.  
O wel.....dwedodd Mam.
2. Bydd Dafydd ..... yn disgwyl canlyniadau'r arholiadau TGAU
3. Rhedodd Mair lawr y stryd..... Doedd hi ddim eisiau colli'r bws.
4. Aeth yr heddlu i mewn i'r ysgol ddoe. Does neb yn dweud dim ond.....
5. Os dwyt ti ddim yn gwybod am Brexit mae'n rhaid dy fod ti'n .....

*ail-ddechrau* : restart  
*lliwgar* : colourful, vivid  
*gwrachod* : witches

*eich defnydd o'r iaith* : your use of the language  
*bwllch* : gap, space  
*brawddegau* : sentences  
*arholiadau TGAU* : GCSE exams


*dywediadau* : sayings  
*aflonydd* : restless

Dyma'r atebion i'r posau ar dudalen 7. Sawl un gawsoch chi'n iawn?



# Morfydd Llwyn Owen, Trefforest

## 01.10.1891-07.09. 1908



**Morfydd Llwyn  
Owen**  
Trefforest  
01.10.1891-07.09.1918  
**Dathlu ei Bywyd a'i  
Cherddoriaeth**  
Nos Sul y 9fed o Fedi am 7:00  
Mynediad £5  
**Celebrating her Life  
and Music**  
Sunday evening September 9<sup>th</sup> at 7:00  
Entry £5  
**Tabernacl Efail Isaf**

Ddydd Sul, Medi 9fed am 7:00 y.h. yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf, cynhelir dathliad o fywyd a cherddoriaeth Morfydd Llwyn Owen, cyfansoddwraig ragoraf Pontypridd, i goffáu ei marwolaeth anamserol gan mlynedd yn ôl yn ddim ond 26 oed.

Mae Côr Godre'r Garth wedi trefnu dathliad mewn partneriaeth â Gwasanaeth Treftadaeth Rhondda Cynon Taf a Gŵyl Gregynog. Bydd y dathliad yn cynnwys dadorchuddio plac glas fydd yn cael ei osod ar ei chartref genedigol; 68 Park Street, Trefforest gan y Dirpwyl Faer.

Bydd Dr Rhian Davies, sy'n cael ei chydabod fel awdurdod arbennig ar Morfydd yn trafod ei cherddoriaeth a'i gwreiddiau yn Nhrefforest, a bydd ei cherddoriaeth yn cael ei berfformio gan y canwr a'r actor Huw Blainey, y soprano Jessica Robinson, Côr yr Einion a Chôr Godre'r Garth. Mynediad yn £5.

Mae'r dathliad yn rhan o dymor o ddigwyddiadau sy'n coffáu'r can mlwyddiant ac sy'n cael ei gydllynu gan Gyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gregynog, Dr Rhian Davies. Yn ogystal â'r uchod mae sawl darlith yng Nghymru a dros y ffin a dadorchuddio plac glas ar yr un diwrnod o'r flwyddyn â'i marwolaeth, sef Medi'r 7fed yn y tŷ lle bu farw yn Y Mwmbwls. Bydd nifer o berfformiadau o'i cherddoriaeth yn cael eu clywed, gan gynnwys yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Gregynog, a pherfformiad o'i gwaith gan Gerddorfa Genedlaethol BBC Cymru yn y Proms yn Llundain ar Orffennaf 20fed.

Am fwy o fanylion ewch i [www.gregynogfestival.org](http://www.gregynogfestival.org)

## COFIO IVOR SPRIGGS

Â thristwch y cyhoeddwn farwolaeth tad-cu annwyl, tad a gŵr gwerthfawr Pat. Ar achlysur o'r fath beth ellir dweud? Tŷ Galar yn haeddu tawelwch ac amser galw i gof pa fath bynnag fônt – hapusrwydd neu ddagrau - ac i ddiolch i Dduw am oes gyda'i gilydd. Roedd Ivor yn hysbyseb gwyh o'r hyn y bydden i'n ei alw'n Gristion ffwrdd â hi. Ar ochr ysgafn Bywyd bob tro y bydden i'n ei gyfarfod bydden yn ei gyfarch fel "Ivor the Engine" ond â pharchusrwydd dwfn a byddai yntau'n gwenu a'm cofleidio am wneud! O ran y capel? Beth allai fod yn well na diacon? Fel cyn ysgrifennydd Bethel gallaf ddweud fod Ivor yn ddyn â ffydd yn ei fywyd gyda chydwybod glir. Nid anghofiwn amdano fel diacon a phwyllgorddyn pan ddymchwelwyd yr hen Fethel ac am ei waith yn codi'r Bethel newydd. Fy ffrindiau, roedd hwn yn gyflawniad *par excellence* yn ei fywyd.

Cyfeiriodd Iesu Grist lawer gwaith ato'i hun fel "DRWS na ddichon neb ei gau" ac, yn fwy pwysig roedd y drws bob amser yn AGORED, byth ar gau. Ym Methel, Ivor oedd Ceidwad y Drws. Fe oedd y cyntaf i agor, i gyfarch gweinidog, i groesawu ffrindiau, aelodau naill ai drwy ysgwyd llaw, gair o groeso neu gofleidiad. Pawb ar yr un lefel. Daliais ef un diwrnod yn doddi WD40 ar golfachau giat y capel. Dywedodd "Mae'n gwichian fel petai'n hen ac yn marw a ninnau'n fyw a llawn bywyd fel Eglwys, Elwyn." Digon gwir, Ivor.

Gwelwn ei golli fel y gwna llawer yn y Clwb Rygbi ac yng Nghaerffili yn gyffredinol. I'w deulu danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf o Fethel. Roedd hi'n fraint ei adnabod.

*Elwyn Parry*

## Clwb Darllen Dysgwyr

Dydd Gwener 14eg Medi  
2 o'r gloch  
Llyfrgell Caerffili

### Hefyd

Bore Coffi  
Caffi'r Graig, Bedwas  
Bob dydd Llun o 10.30 ymlaen  
A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill  
(Wetherspoons), Caerffili  
bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch  
ymlaen

Cyswllt: [penneyje961@gmail.com](mailto:penneyje961@gmail.com)

*Croeso Cynnes i Bawb*

## Clwb Darllen Cwmni


Llawr Cyntaf  
Llyfrgell Newydd Caerffili

**2:00 o'r gloch**

Medi 3 Darllen ar y Traeth  
(Detholiad o ddewis yr aelodau)  
Hydref 1af Yn Fflach y Felten  
gan Geraint V. Jones  
Tachwedd 5ed – Y Dŵch  
gan John Gower  
Rhagfyr 3ydd – Hen Bethau Anghofiedig  
gan Mihangel Morgan  
Ionawr 7fed – Digon i'r Diwrnod  
gan Geraint Evans  
Chwefror 4ydd – Fel Aderyn gan  
Manon Steffan Ros

[penneyje961@gmail.com](mailto:penneyje961@gmail.com)

*Croeso Cynnes i Bawb*



**19.10.18**

i gychwyn am 4pm  
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni  
Campws y Gwyndy, Caerffili  
Llywydd Anrhydeddus  
Y Parch. Ddr. R. Alun Evans

Dyddiad cau i gofrestru er mwyn cystadlu  
a danfon y gwaith Llennyddol a Ffotograffiaeth  
**Dydd Llun - 8ed o Hydref**

**RHAID COFRESTRU ELEN I  
AR LEIN**

[www.eisteddfodycymoedd.cymru](http://www.eisteddfodycymoedd.cymru)



Eisteddfod y Cymoedd



@eistycymoedd

## Hanes Cwm Ni

**5/7/18 Dave Hale**

Effaith y pla ar bobl Cymru +  
dathlu diwedd y flwyddyn gyda  
Côr Afon Lwyd a Clwb Gwerin  
Dysgu Cymraeg Gwent

**6/9/18 Thomas Hughes**

Arloeswyr Cymraeg Casnewydd

**4/10/18 Iestyn ap Rhobert**

Hanes y Gymraeg yng Ngwent



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

[helen.young@coleggwent.ac.uk](mailto:helen.young@coleggwent.ac.uk)

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am  
hanes Cymru? Dewch i  
wrando. Croeso i bawb.  
Addas ar gyfer siaradwyr  
CANOLRADD / UWCH /  
HYFEDREDD



Dyma'r atebion i Colofn y Dysgwyr ar dudalen 17. Gawsoch chi nhw'n iawn?

1. Enillodd y bobl drws nesaf, sy'n byw mewn tŷ mawr crand, arian ar y loteri.  
"O wel, i'r pant y rhed y dŵr," dwedodd Mam.
2. Bydd Dafydd fel gafr ar daranau yn disgwyl canlyniadau'r arholiadau TGAU
3. Rhedodd Mair lawr y stryd fel cath i gythraul. Doedd hi ddim eisiau colli'r bws.
4. Aeth yr heddlu i mewn i'r ysgol ddoe. Does neb yn dweud dim ond mae rhyw ddrwg yn y caws
5. Os dwyt ti ddim yn gwybod am Brexit mae'n rhaid dy fod ti'n byw fel iâr dan fwced.

# Blodau a Lluniau Bethel

